

Diffiniad a Chanllawiau

CYNNAL A CHADW ALLAN O ORIAU



Diffiniad

Mae atgyweiriad brys yn rhywbeth y mae angen ei drwsio ar unwaith, a gallai peidio â delio â'r mater achosi niwed sylweddol neu farwolaeth tenantiaid, prydleswr, cymydog, yn ogystal â difrod sylweddol i'r eiddo neu eiddo cyfagos.

Beth i'w wneud mewn argyfwng

Argyfwng	Camau i'w cymryd
Gollyngiad nwy	Gadewch yr adeilad, gan adael ffenestri a drysau ar agor a ffonio Wales & West Utilities ar 0800 111 999.
Larwm carbon monocsid	Gadewch yr adeilad, gan adael ffenestri a drysau ar agor. Os oes unrhyw amheuaeth o wenwyno Carbon monocsid, ewch i'ch adran damweiniau ac achosion brys ar unwaith. Adroddwch y digwyddiad i Barcud ar 0300 111 3030.
Draeniau wedi'u blocio	Os yw'r rhwystr mewn draen a rennir, yn gwasanaethu mwy nag un annedd, yna Cysylltwch â'ch cyflenwr - naill ai Dŵr Cymru ar 0800 085 3968 neu Hafren Dyfrdwy ar 0800 085 8033. Os yw'n doiled neu sinc wedi'i rwystro, ac mae gennych un arall, yna ni ystyrir ei fod yn argyfwng. Os gall aros tan y bore, ffoniwch Barcud yn y bore.
Wedi'ch cloi allan	Ffoniwch saer cleon lleol os ydych chi wedi colli'ch allweddi, ffoniwch Barcud os yw clo wedi torri.
Boeler ddim yn gweithio	Gwiriwch fod gennych nwy / olew, a bod y lifer falf nwy / olew wedi'i droi ymlaen ar y mesurydd. Ydych chi wedi gwirio thermostat yr ystafell - beth fydd yn digwydd os bydd wedi troi i fyny? A yw'r falfiau rheiddiadur ar gau? Trowch y rheini ac aros am hanner awr i wirio a oes unrhyw wres. A yw ar ôl 5:00pm? - Ffoniwch Barcud ar 0300 111 3030 yn y bore.
Dim trydan	Oes gennych chi gredyd ar y mesurydd? Gwiriwch yr blwch ffiwsiau - a yw un o'r ffiwsiau wedi tripio? - os felly gwiriwch pa gylch trydan ydyw, trowch yr holl offer i ffwrdd, ail-osodwch y switsh tripio, yna trowch offer ymlaen fesul un i nodi pa beiriant sy'n ddiffygiol. Ffoniwch Western Power ar 0800 096 3080 neu Scottish Power ar 0800 027 0072 i wirio nad oes toriad pŵer yn eich ardal chi. Ffoniwch Barcud ar 0300 111 3030 yn y bore.
Materion eraill	Ffoniwch Barcud ar 0300 111 3030 yn y bore ar ôl 9:00am.

Tenantiaid bregus

Yma yn Barcud, rydym yn ymwybodol efallai na fydd rhai tenantiaid yn gallu cynnal y gwiriadau a'r camau y gofynwn amdanynt wrth gysylltu â'n gwasanaeth Allan o Oriau oherwydd cyflwr iechyd, nam corfforol neu synhwyaidd neu salwch lechyd Meddwl neu fathau eraill o Anabledd. Hoffem sicrhau ein tenantiaid bod eich iechyd, diogelwch a lles yn bwysig i ni ac y byddwn yn gwneud pob ymdrech i'ch helpu chi.

Gall pobl fod yn agored i niwed ar wahanol adegau ac am wahanol resymau, er enghraifft gallai rhywun fod yn iach a gallai gwmpo a thorri eu coes - a fyddai'n eu gwneud yn agored i niwed am gyfnod nes iddynt wella, gallai eraill fod â chyflwr sy'n fwy parhaol ac a fyddai bregus trwy'r amser, er enghraifft, y rhai sydd:

- ▶ â nam corfforol neu synhwyaidd
- ▶ bod â nam dysgu
- ▶ bod â materion iechyd meddwl
- ▶ yn ddifrifol wael

Efallai y bydd gan eraill anhwylderau sy'n gysylltiedig ag oedran, yn feichiog neu teuluoedd â phlant ifanc.

Pryd fyddem yn ymgymryd â galwad y tu allan i oriau

- ▶ Pan fydd llifogydd difrifol, ar ôl i chi alw'r gwasanaethau brys ar 999, yna ffoniwch Barcud.
- ▶ Pan fydd tân, ar ôl i chi alw'r y gwasanaethau brys ar 999, yna ffoniwch Barcud.
- ▶ Mewn rhai amgylchiadau lle mae'r tenant yn agored i niwed, a maint yr argyfwng yn gofyn am ymweliad ar unwaith, fel arall os caiff ei adael tan y bore, gallai hyn arwain at anaf neu hyd yn oed farwolaeth tenant.
- ▶ Os yw tenant bregys yn colli cyflenwad trydan, am 5:00pm ac nid oes ganddo/ganddi fodd i wirio'r blwch ffiwsiau am unrhyw ffiwsiau wedi tripio. Os oes ffiwsiau wedi'u tripio oherwydd peiriant diffygiol, gall y tenant dderbyn anfoneb am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag offer diffygiol.

Pryd NA fyddem yn ymgymryd â galwad y tu allan i oriau

- ▶ Pan fydd yn 8:00pm ac mae'r gwres wedi diffodd.
- ▶ Pan fydd hi'n 10:00pm yr hwyr ac mae'r trydan wedi diffodd.
- ▶ Pan fydd rhywun wedi rhedeg allan o gredyd ar ei fesurydd neu unrhyw fater cynnal a chadw arall y gellid delio ag ef y diwrnod canlynol.
- ▶ Chwythwyd llai na 6 llechen oddi ar do yn ystod storm - am resymau iechyd a diogelwch, ni fyddem yn disgwyl i'n cydweithwyr fynd ar dô yn ystod storm neu mewn tywyllwch, a byddai galwadau o'r fath yn cael eu trin y diwrnod canlynol, neu unwaith y mae storm wedi gostegu, oni bai y gallent fod yn berygl i'r cyhoedd - yna mae angen galw'r gwasanaethau brys.

Atgyweiriadau y gellir codi ffi

Gallai cost galw crefft-berson allan y tu allan i oriau gwaith arferol fod hyd at bedair gwaith y gost o wneud atgyweiriadau yn ystod oriau gwaith arferol. Os yw rhywun yn cloi ei hun allan er enghraifft, rydym yn argymhell saer-cloeon brys, oherwydd gallai hyn fod yn rhatach na chael anfoneb gan Barcud.

Os bydd crefft-berson yn cael ei alw allan yn ystod gyda'r nos neu ar benwythnos i alwad y gellid ei wneud yn ystod y diwrnod gwaith canlynol, gellid codi tâl ar y tenant am y costau ychwanegol i gyflawni'r gwaith hwn yn ystod y cyfnodau premiwm hyn. I gael manylion llawn pryd y gallech gael eich ail-godi, cyfeiriwch at ein Polisi Atgyweirio.